


Cwestiynau ac Atebion



Pam yr ydych yn ystyried y gwasanaeth cyfleoedd dydd?



Rydym am sicrhau y gall Sir Benfro gynnig rhywbeth i bawb.



Am ba mor hir y bydd y prosiect yn para?



Dechreuom ar y prosiect ym mis Tachwedd 2018.




Byddwn yn cynnal digwyddiadau cydgynhyrchu ym mis Chwefror 2019.



Byddwn yn ymgynghori â phobl ym misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf 2019.



Nid ydym yn gwybod eto pa bryd y gallwn gynnig gwasanaethau newydd yn Sir Benfro.



Beth yw'r holl gyfleoedd dydd gwahanol a gynigir?



Mae rhai pobl yn mynd i ganolfannau dydd.



Mae pobl eraill yn cael cymorth gan eraill er mwyn eu galluogi i fentro allan a gwneud pethau gwahanol.

Mae rhai pobl yn dewis gwneud Taliad Uniongyrchol er mwyn talu cynorthwyydd personol i'w helpu i wneud yr hyn y maent yn dymuno ei wneud.






Gall rhai sefydliadau helpu pobl i wirfoddoli a mynd i'r gwaith.




Mae rhai pobl yn hoffi mynd i glybiau yn eu cymuned, a hynny gyda phobl eraill sy'n rhannu'r un diddordeb â nhw.



Beth fydd yn digwydd?



Byddwn yn sgwrsio â phobl am y prosiect ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2018.



Byddwn yn cynnal digwyddiadau cydgynhyrchu ym mis Chwefror 2019 er mwyn galluogi pobl i ddweud eu dweud wrthym.



Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ym misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf 2019.



Byddwn yn dweud wrth y Cyngor beth yw barn pobl ym mis Awst 2019.



Rydym yn gobeithio y bydd ambell beth newydd yn dechrau digwydd ym mis Medi 2019.



A yw'r Cabinet yn ymwybodol o hyn?



Ydy, ac mae'r Cyng. Tessa Hodgson, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac aelod o'r grŵp prosiect, hefyd yn ymwybodol ohono.



Rydym yn rhoi gwybod i aelodau'r Cabinet yn rheolaidd am yr hyn sy'n digwydd.



Pam yr ydych yn cydweithio â Peopletoo? A oedd y cwmni wedi codi ffi fawr?

Rydym yn cydweithio â Peopletoo gan fod y cwmni'n dda iawn am helpu llawer o bobl i gydweithio.



Roeddem wedi cysylltu â llawer o sefydliadau i ofyn a fyddent yn gallu ein helpu gyda'r gwaith hwn.



Aethom ati i gwrdd â sefydliadau eraill, ond Peopletoo oedd y gorau.



Dyma ragor o wybodaeth am Peopletoo a'r hyn y mae'n ei wneud:

Background to Peopletoo - Pembro



Pwy yw'r Byrddau Partneriaeth a beth y maent yn ei wneud?



Mae'r Byrddau Partneriaeth yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu, rhieni, gofalwyr, pobl hŷn, aelodau cabinet, hyrwyddwyr ac aelodau o sefydliadau eraill.



Mae aelodau'r Byrddau Partneriaeth am gydweithio â'i gilydd i wella ansawdd bywyd yn Sir Benfro er lles pawb.



Ble y gallaf ddod o hyd i gopi o Strategaeth Anableddau Dysgu Cyngor Sir Penfro 2017-2022?



Gallwch ddod o hyd i gopi o'r strategaeth ar wefan y Cyngor: https://www.sir-benfro.gov.uk/anableddau-dysgua/strategaeth-anabledd-dysgu



Neu, gallwch ein ffonio ar y rhif canlynol: 01437 764551




Ble y gallaf ddod o hyd i gopi o Heneiddio'n Dda yn Sir Benfro 2016?



Gallwch ddod o hyd i gopi o'r strategaeth ar wefan y Cyngor: http://www.sir-benfro.gov.uk/objview.asp?Language=CYM&object_id=2970



Neu, gallwch ein ffonio ar y rhif canlynol: 01437 764551



Ble y gallaf ddod o hyd i Strategaeth Gofalwyr Sir Benfro?




Gallwch ddod o hyd i gopi o'r strategaeth ar wefan y Cyngor: https://www.sir-benfro.gov.uk/gofalyddion/strategaeth-gofalwyr-sir-benfro



Neu, gallwch ein ffonio ar y rhif canlynol: 01437 764551



Beth y mae 'cydgynhyrchu model cyfleoedd dydd' yn ei olygu?



Yn syml, mae cydgynhyrchu yn golygu cydweithio i greu rhywbeth.

Mae 'cydgynhyrchu model cyfleoedd dydd' yn golygu bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cydweithio â phobl sy'n darparu gwasanaethau i lunio ffyrdd newydd a gwahanol o wneud pethau.



A yw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu galw'n gwsmeriaid neu'n ddefnyddwyr gwasanaeth?



Rydym ni yn eu galw'n 'bobl'.



A fydd fy nghanolfan ddydd yn cau?



Nid ydym yn gwybod.




Mae angen i ni siarad â phobl i glywed eu barn.



Sut y byddwch yn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i leisio eu barn?



Mae'r bobl sy'n cynnal y digwyddiadau yn dda iawn am helpu pobl i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.




Os bydd ar bobl angen help i gyfathrebu, gallant ddefnyddio ystod o offer i'w helpu.



Byddant hefyd yn gweithio gyda phobl, eu rhieni, eu gofalwyr a'u heiriolwyr i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan.



Sut yr ydym yn gwybod y bydd safbwyntiau staff, cwsmeriaid, teuluoedd a gofalwyr yn cael eu hystyried?



Rydym am gydweithio â phawb.



Byddwn yn sicrhau y bydd pawb yn gallu rhannu eu safbwyntiau a'u syniadau, a byddwn yn eu helpu i ddatblygu pethau newydd.



Nid ymgynghoriad mo hyn – felly, beth ydyw?



Gelwir hyn yn **gydweithio** er mwyn datblygu pethau newydd a gwahanol.



Bydd cyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal ar ôl cynnal pob digwyddiad cydgynhyrchu.



Pwy y gallaf droi ato os byddaf yn pryderu?



Gallwch ffonio Canolfan Gyswllt y Cyngor ar 01437 764551.



Bydd y ganolfan yn eich cyfeirio at aelod o'r Tîm Prosiect am sgwrs.